Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 21.11.23 |
| **Pwnc / Subject:** | **Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2024** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

Rydym yn cytuno â'r cynigion i gofrestru ymarferwyr dysgu oedolion yn y gymuned ac uwch arweinwyr Addysg Bellach (AB).

Rydym yn cytuno mewn egwyddor â'r cynnig cyffredinol i athrawon AB cofrestredig feddu ar gymhwyster addysgu lefel 5, o leiaf, ac i ymarferwyr dysgu oedolion cofrestredig feddu ar lefel 3, o leiaf.

Rydym yn anghytuno â'r rhestr arfaethedig o gymwysterau addysgu lefel 5 a gyflwynir yn Atodlen 6. Nid oes unrhyw resymeg wedi cael ei chyflwyno yn nodi pam mae unrhyw gymhwyster wedi cael ei gynnwys ar y rhestr hon. Mae'r rhestr hon yn cynnwys llawer o gymwysterau nad ydynt wedi'u bwriadu ar gyfer paratoi i addysgu – nid ydynt yn 'gymwysterau addysgu' ac nid ydynt yn cynnwys elfen ymarfer addysgu nac arfer broffesiynol. Y risg yw bod hyn yn creu cyfle ar gyfer cymwysterau addysgu o ansawdd gwaelach a allai niweidio llwybr presennol y Dystysgrif Broffesiynol mewn Addysg / y Dystysgrif Raddedig Broffesiynol mewn Addysg / TAR i addysgu AB.

Rydym hefyd yn anghytuno â'r rhestr o gymwysterau ar gyfer ymarferwyr dysgu oedolion yn y gymuned. Cyflwynir y rhestr hon (Atodlen 4) hefyd heb resymeg glir sy'n nodi pam mae unrhyw un o'r cymwysterau a restrir wedi'i gynnwys. Nid yw'n glir pa un o'r cymwysterau hyn yn baratoad addas ar gyfer addysgu mewn dysgu oedolion yn y gymuned.

Rydym yn meddwl y gallai'r rhestrau o gymwysterau yn Atodlenni 4 a 6 gael effaith negyddol ar y Gymraeg. Ar hyn o bryd, er gwaethaf y ffaith fod darparwyr y Dystysgrif Broffesiynol mewn Addysg / y Dystysgrif Raddedig Broffesiynol mewn Addysg / TAR yn cynnig eu rhaglenni trwy gyfrwng y Gymraeg mewn egwyddor, ychydig iawn o hyfforddeion sy'n manteisio ar yr opsiwn hwn. Ychydig iawn o'r ystod eang o gymwysterau posibl a restrir fydd yn cynnwys unrhyw elfen o addysgeg ddwyieithog. Yn ein hymateb i C2 a C6 yr ymgynghoriad hwn, rydym yn nodi ein bod yn anghytuno â'r rhestrau arfaethedig o gymwysterau. Mae'n debygol, os na chânt eu newid, y bydd y cynigion hyn yn cynyddu'r risg o hyd yn oed llai o athrawon AB neu ymarferwyr dysgu oedolion yn y gymuned yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n datblygu dealltwriaeth o addysgeg ddwyieithog.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1** – Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y bydd Athrawon Sefydliad Addysg Bellach yn meddu ar gymhwyster addysgu Lefel 5, o leiaf, i allu gweithio yn y sector?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno â'r cynnig hwn. Mae'n cyd-fynd â'r disgwyliad presennol trwy gontract cyffredin y colegau AB ar gyfer darlithwyr y dylai darlithwyr AB gwblhau naill ai'r Dystysgrif Broffesiynol mewn Addysg (AHO) neu'r Dystysgrif Raddedig Broffesiynol mewn Addysg/TAR (AHO). Mae'r newid arfaethedig yn ffurfioli'r arferion a'r ymarfer presennol.<br><br>Fodd bynnag, mae risg y bydd nodi Lefel 5 fel isafswm yn lleihau disgwyliadau ar ddarlithwyr AB. Mae'r Dystysgrif Broffesiynol mewn Addysg bresennol ar gyfer y rhai nad ydynt yn raddedigion yn gymhwyster Lefel 5/6 (gydag ychydig o amrywiad rhwng darparwyr) ac mae'r Dystysgrif Raddedig Broffesiynol mewn Addysg/TAR yn gymhwyster lefel 6/7 (gydag ychydig o amrywiad rhwng darparwyr). Dylai LlC a CGA ei gwneud yn glir bod y cymhwyster Lefel 5 yn isafswm ac mai'r llwybr Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg neu'r Dystysgrif Raddedig Broffesiynol mewn Addysg/TAR i ddarlithwyr AB yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio ar gyfer darlithwyr AB. |

**Cwestiwn 2** – Ydych chi'n cytuno â'r rhestr arfaethedig o gymwysterau addysgu Lefel 5 (ac yn uwch) sydd wedi'u cynnwys o fewn y Gorchymyn drafft (gan gynnwys cymwysterau cyfwerth ledled y DU a chymwysterau hanesyddol perthnasol)? Os ydych yn ystyried y dylid hepgor unrhyw gymwysterau neu fod angen ychwanegu unrhyw gymwysterau, rhestrwch y rhain yn y blwch Sylwadau Ategol ac esboniwch pam.

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ✓ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Teimlwn fod y rhestr hon o gymwysterau yn anaddas at ei diben. Ni chyflwynwyd unrhyw resymeg ar gyfer cynnwys unrhyw gymhwyster ar y rhestr. Dylai'r rhestr ond nodi'r cymwysterau hynny sydd wedi'u bwriadu i baratoi pobl i addysgu a chael elfen glir yn seiliedig ar ymarfer. Er enghraifft, mae rhaglenni Addysg neu Astudiaethau Addysg BA / BSc wedi'u rhestru nad ydynt yn gymwysterau addysgu yn seiliedig ar ymarfer ac nid ydynt wedi'u bwriadu fel rhaglenni AGA.<br><br>Mae'r rhestr arfaethedig o gymwysterau yn Atodlen 6 yn creu risg o ran canlyniadau negyddol anfwriadol, gan gynnwys y risg fod hyn yn creu cyfle ar gyfer cymwysterau addysgu o ansawdd gwaelach a allai niweidio llwybr presennol y Dystysgrif Broffesiynol mewn Addysg / y Dystysgrif Raddedig Broffesiynol mewn Addysg / TAR i addysgu AB ac yn gostwng gwerth addysgu AB fel proffesiwn.<br><br>Nid yw'n glir sut byddai cynnwys ehangder y cymwysterau yma yn cefnogi cynnydd tuag at yr argymhellion yn yr Adolygiad annibynnol diweddar o AGA AHO ar gyfer Llywodraeth Cymru, er enghraifft i achredu addysg gychwynnol athrawon mewn addysg ôl-orfodol a datblygu Statws Ymarferwr Cymwys (AHO). Nod yr adolygiad hwn oedd cynyddu gwerth proffesiynol ymarferwyr AB. |

**Cwestiwn 3** – Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ychwanegu categori cofrestru ar gyfer ymarferwyr dysgu oedolion yn y gymuned?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae hyn yn gam synhwyrol tuag at broffesiynoli'r gweithlu dysgu oedolion yn y gymuned ac yn ei osod ar sylfaen broffesiynol gyfatebol â staff addysgu eraill yn y sector ôl-16.<br><br>Mae risg yn perthyn i'r dull hwn, fodd bynnag, gan fod llawer o staff dysgu oedolion yn y gymuned yn gweithio ar gontractau rhan-amser a gallai cofrestru beidio â'u cymell i addysgu yn y sector. Croesewir y cam hwn tuag at broffesiynoli'r gweithlu ond mae angen archwilio'r risg hon yn llawn, gyda chamau lliniaru priodol, fel cyfleoedd dysgu proffesiynol gwell ar gyfer ymarferwyr. |

**Cwestiwn 4** – Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad o ymarferwr dysgu oedolion a lleoliad cymunedol sydd wedi'i gynnwys yn y deddfwriaethau?

**Diffiniad:**

Ymarferwr dysgu oedolion - Rhywun sy'n darparu addysg bellach a hyfforddiant i oedolion ar gyfer darparwr dysgu oedolion yn y gymuned.

Darparwr dysgu oedolion yn y gymuned - darparwr (heblaw ysgol, sefydliad addysg bellach neu sefydliad addysg uwch) addysg bellach a hyfforddiant ar gyfer oedolion sydd wedi'i leoli yn y gymuned ac yn cael ei ariannu neu'i ddarparu fel arall gan awdurdod lleol, Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, neu Weinidogion Cymru.

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Dim sylw ychwanegol |

**Cwestiwn 5** – Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i ymarferwyr dysgu oedolion yn y gymuned feddu ar gymhwyster addysgu Lefel 3, o leiaf?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae heriau penodol yn gysylltiedig ag isafswm gofyniad ar gyfer athrawon dysgu oedolion yn y gymuned, ac nid y lleiaf yw'r ffaith eu bod yn aml yn gweithio'n rhan-amser. Rydym yn cytuno mewn egwyddor fod hyn yn gam synhwyrol tuag at broffesiynoli'r gweithlu heb gyflwyno rhwystr di-fudd o uchel ar gyfer cael eu derbyn. |

**Cwestiwn 6** – Ydych chi'n cytuno â'r rhestr arfaethedig o gymwysterau addysgu Lefel 3 (ac yn uwch) sydd wedi'u cynnwys o fewn y Gorchymyn drafft (gan gynnwys cymwysterau cyfatebol ledled y DU a chymwysterau hanesyddol perthnasol)? Os ydych chi'n ystyried y dylid hepgor unrhyw gymwysterau neu fod angen ychwanegu unrhyw gymwysterau, rhestrwch y rhain yn y blwch Sylwadau ategol, ac esbonio pam.

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Ni chyflwynwyd unrhyw rhesymeg ynghylch pam y dylid cynnwys unrhyw gymhwyster ar y rhestr hon. Nid yw pob un o'r cymwysterau yn gymwysterau paratoadol addas (ar lefel 3) ar gyfer rhywun sy'n dymuno addysgu yn y sector dysgu oedolion yn y gymuned. |

**Cwestiwn 7 –** Ydych chi'n cytuno â'r gofyniad arfaethedig fod yr holl uwch arweinwyr a phenaethiaid mewn sefydliadau AB wedi cofrestru?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae 'bwlch' o fewn y fframwaith rheoleiddio ar hyn o bryd, a bydd yn caniatáu rheoleiddio proffesiynol ar gyfer y rhai mewn rolau uwch arweinwyr. |

**Cwestiwn 8 –** Ydych chi'n cytuno â'r cynnig nad yw'n ofynnol i wirfoddolwyr neu'r rhai sy'n darparu hyfforddiant yn gysylltiedig â phroffesiwn ar sail dros dro neu'n achlysurol i Sefydliad Addysg Bellach gofrestru gyda'r Cyngor?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae hyn yn ddull synhwyrol. Byddai gofyn i'r categorïau hyn o bobl gofrestru yn creu rhwystr di-fudd rhag cyfranogi a byddai'n lleihau galluoedd colegau i ddefnyddio arbenigwyr mewn meysydd arbenigol o ddarpariaeth. |

**Cwestiwn 9 –** Ydych chi'n cytuno â'r strwythur ffioedd ar gyfer y categorïau cofrestru newydd arfaethedig?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Dim sylw ychwanegol |

**Cwestiwn 10 –** Ydych chi'n meddwl y dylid ystyried unrhyw newidiadau pellach i'r ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig i'r categorïau a'r cymwysterau ar gyfer cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA)?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'r Adolygiad diweddar o AGA AHO ar gyfer Llywodraeth Cymru yn nodi nifer o gynigion i'r strwythur cymwysterau ar gyfer AGA AHO, gan gynnwys cymhwyster cyfatebol ar gyfer ymarferwyr ôl-16 i Statws Athro Cymwys athrawon ysgol, y 'Statws Ymarferwr Cymwys (AHO)'. Mae hyn yn cynnig opsiwn tymor hirach amgen i fynd i'r afael â'r anfanteision yr ydym yn sôn amdanynt yn ein hymateb i C2. Er enghraifft, gallai'r QPS (AHO) fod yn |

isafswm gofyniad ar gyfer athrawon AB, a byddai'n cael ei gyflawni trwy gyrsiau wedi'u hachredu yn genedlaethol.

**Cwestiwn 11** – Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y categorïau cofrestru newydd ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
- Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

**Sylwadau ategol**

Nododd adroddiad Estyn, Addysg gychwynnol athrawon yn y sectorau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (2021), mai ychydig iawn o hyfforddeion sy'n dilyn eu cymwysterau AGA trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod holl ddarparwyr presennol y Dystysgrif Broffesiynol mewn Addysg AHO / y Dystysgrif Raddedig Broffesiynol mewn Addysg / TAR yn cynnig eu cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg, yn dybiannol.

Ychydig iawn o'r ystod eang o gymwysterau posibl a nodwyd yn Atodlen 6 ac Atodlen 4 fydd yn cynnwys unrhyw elfen o addysgeg ddwyieithog. Yn ein hymateb i C2 a C6 yr ymgynghoriad hwn, rydym yn nodi ein bod yn anghytuno'n gryf â'r rhestrau arfaethedig o gymwysterau. Mae'n debygol, os na chânt eu newid, y bydd y cynigion hyn yn cynyddu'r risg y bydd hyd yn oed llai o athrawon AB neu ymarferwyr dysgu oedolion yn y gymuned yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n datblygu dealltwriaeth o addysgeg ddwyieithog.

**Cwestiwn 12** – Yn eich barn chi, a ellid ffurfio neu newid y ddeddfwriaeth ar y categorïau newydd ar gyfer cofrestru, er mwyn:

- cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Sylwadau ategol**

Rydym eisoes wedi nodi ein bod yn ystyried y rhestr arfaethedig o gymwysterau yn anaddas at ei diben ac y dylid ailedrych arni. Fodd bynnag, un ffordd o gael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg fyddai nodi bod yn rhaid i unrhyw gymhwyster addysgu roi rhywfaint o sylfaen i ymarferwyr mewn addysgeg ddwyieithog. Byddai gweithredu system o gymwysterau wedi'i hachredu'n genedlaethol yn caniatáu ar gyfer cyflawni hyn.

**Cwestiwn 13** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:

Rydym yn meddwl y dylai CGA gyhoeddi ystadegau yn nodi ystod y gwahanol gymwysterau addysgu sydd gan athrawon AB ac ymarferwyr dysgu oedolion yn y gymuned er mwyn gallu nodi tueddiadau yn lefelau cymwysterau'r gweithlu.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐